**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 147 (Cy.17)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Galluogodd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002, a wnaed o dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, awdurdod lleol yng Nghymru a weithredai drefniadau gweithrediaeth i wneud trefniadau fel y cyflawnir ei swyddogaethau gweithrediaeth gan bwyllgorau ardal, gweithrediaeth awdurdod lleol arall neu ar y cyd ag un neu fwy o awdurdodau lleol drwy gyfrwng cyd-bwyllgor.

Darparodd Rheoliad 12(1) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002 ("Rheoliadau 2002") mai aelodau o weithrediaethau yn unig y gellir eu penodi i gyd-bwyllgor sy'n arfer swyddogaethau gweithrediaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu a disodli Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a ddiwygiodd Reoliadau 2002. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu pŵer penodi positif fel y gallai aelodau nad ydynt yn aelodau o'r weithrediaeth a swyddogion wasanaethu ar gyd-bwyllgorau.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 147 (W.17)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2002, made under Part II of the Local Government Act 2000, enabled a local authority in Wales operating executive arrangements to make arrangements for the discharge of its executive functions by area committees, the executive of another local authority or jointly with one or more other local authorities by way of joint committee.

Regulation 12(1) of the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2002 ("the 2002 Regulations") provided that only a member of the executive could be appointed to a joint committee which exercises executive functions.

These Regulations revoke and replace the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Amendment) (Wales) Regulations 2002 which amended the 2002 Regulations. These Regulations provide a positive power of appointment so that non-executive members and officers may serve on joint committees.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 147 (Cy.17)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2003

*Wedi'u gwneud* *29 Ionawr 2003*

*Yn dod i rym yn unol â darpariaethau Rheoliad 1(1)*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 18(1) a (2), 19(1), (2), (4), (5) a (6), 20(1) a (2), 105(2) a 106(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enw, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Rheoliadau hyn eu llofnodi.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002(**b**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dirymu**

**2.** Dirymir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002(**c**).

**Diwygio'r prif Reoliadau**

**3**. Yn lle paragraff (1) o reoliad 12 o'r prif Reoliadau (Aelodau cyd-bwyllgorau) rhowch-

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) isod,

(a) 2000 p.22.

(b) O.S. 2002/802 (Cy.87).

(c) O.S. 2002/2941 (Cy.282).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 147 (W.17)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

*Made* *29 January 2003*

*Coming into force in accordance with the provisions of Regulation 1(1)*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon it by sections 18(1) and (2), 19(1), (2), (4), (5) and (6), 20(1) and (2), 105(2) and 106(1) and (2) of the Local Government Act 2000(**a**):

**Name, commencement, interpretation and application**

**1**.-(1) These Regulations are called the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 and come into force on the day after the day on which these Regulations are signed.

(2) In these Regulations "the principal Regulations" means the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2002(**b**).

(3) These Regulations apply in Wales only.

**Revocation**

**2**. The Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Amendment) (Wales) Regulations 2002(**c**) are revoked.

**Amendment of principal Regulations**

**3**. For paragraph (1) of regulation 12 of the principal Regulations (Members of joint committees) substitute -

"(1) Subject to paragraph (3) below, a member or

(a) 2000 c.22.

(b) S.I. 2002/802 (W.87).

(c) S.I. 2002/2941 (W.282).

gellir penodi aelod neu swyddog awdurdod lleol i gyd-bwyllgor yn unol â rheoliad 11 uchod gan weithrediaeth, aelod o weithrediaeth neu bwyllgor gweithrediaeth, ac, yn achos aelod, ni waeth a yw'r person hwnnw yn aelod o'r weithrediaeth honno ai peidio, ac ni fydd y gofynion am gydbwysedd gwleidyddol yn gymwys wrth benodi aelodau o'r fath.".

an officer of a local authority may be appointed to a joint committee in accordance with regulation 11 above by an executive, a member of an executive or a committee of an executive regardless, in the case of a member, of whether that person is a member of that executive, and the political balance requirements shall not apply to the appointment of such members.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

29 Ionawr 2003

29th January 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 147 (Cy.17)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 147 (W.17)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

©℗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090632-2

9 780110 906324

**£1.75**

W41/02/03 ON